**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**18fed Gorffennaf 2011**

**SIGARÉTS SY'N DDIOGEL RHAG TÂN**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 I hysbysu'r Aelodau bydd safon sy'n cydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd o'r enw sigaréts sy'n ddiogel rhag tân yn cael ei chyflwyno ym mis Tachwedd 2011.

**Cefndir**

2 Roedd adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn 2007 yn adnabod mai un o'r ffactorau cyfrannol at farwolaethau tân damweiniol oedd

> "….sigaréts sy'n cael eu gwaredu'n ddiofal mewn cynwysyddion gwastraff, neu sigaréts sy'n disgyn ar arwynebau fflamadwy. Mae ysmygwyr yn gwaethygu'r risgiau o dân drwy syrthio i gysgu wrth ysmygu, gan achosi tân mewn cadeiriau/soffas a gwelyau."

3 Argymhelliad allweddol o adroddiad y Grŵp Gorchwyl oedd hyrwyddo sigaréts sy'n ddiogel rhag tân ar lefel genedlaethol:

> "GTAGC i roi cefnogaeth lefel uchel a lobio Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddeddfwriaeth i gyflwyno sigaréts sydd â llai o dueddfryd i danio yng Nghymru, sy'n adlewyrchu mentrau llwyddiannus yng Nghanada, Seland Newydd, Awstralia a'r Unol Daleithiau."

4 Mae Llywodraeth y DU wedi bod ar y blaen yn annog y Comisiwn Ewropeaidd i edrych i mewn i achos o greu Safon Ewropeaidd i sigaréts sy'n ddiogel rhag tân. Cyflwynwyd y sigaréts yma am y

tro cyntaf yn yr UDA yn 2003. Gwnaethpwyd gwaith ymchwil gan Gymunedau a Llywodraeth Leol yn 2004, oedd yn amcangyfrif pe byddai'r DU wedi cyflwyno'r sigaréts yr un pryd a'r UDA, byddai'r nifer o farwolaethau oedd yn gysylltiedig gyda thanau sigaréts wedi ei ostwng yn y flwyddyn honno o bron i draean.

5 Sefydlwyd Gweithgor o fewn y Sefydliad am Safonau Rhyngwladol, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant tybaco a diogelwch tân, i symud y mater yn ei flaen.

**Gwybodaeth**

6 Roedd y Gwasanaeth wedi cael gwybod yng Nghylchlythyr y Gwasanaeth Tân ac Achub W-FRS(11)15 y disgwylir i'r UE gymeradwyo'r Safon ym mis Tachwedd 2011 ac y cyfeirir at y Safon yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr EU wedyn. Enw'r Safon Newydd yw BS EN 16156: Sigaréts 2010 - Asesiad o dueddiad tanio - Gofyniad diogelwch a dull asesu tueddiad tanio sigaréts Safon BS EB ISO.

7 Bydd y safon yn gosod gofyniad diogelwch tân ar wneuthurwyr sigaréts i gynhyrchu sigaréts gyda llai o dueddiad i danio. Bydd rhaid i sigaréts sy'n cael eu gwerthu yn yr Undeb Ewropeaidd gael eu cynhyrchu gyda bandiau i lawr hyd y papur, fydd yn gwneud i'r cynnyrch ddiffodd ei hunan pan nad yw'n cael ei ysmygu. Fodd bynnag, bydd sigaréts anghyfreithlon sydd efallai ddim yn cwrdd â'r Safon yn parhau yn broblem a bydd yn cymryd amser i'r Safon gael yr effaith ddymunol.

**Argymhelliad**

8 Gofynnir i'r Aelodau nodi y bydd sigaréts sy'n ddiogel rhag tân yn cael eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2011.